Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 24 Chwefror 2020 a nododd yr eitemau allweddol canlynol:

i. *Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth:* Cynhaliwyd archwiliad o'r 'ffynhonnell ymbelydrol seliedig'. Ni nodwyd dim pryderon.

ii. *Cyfoeth Naturiol Cymru:* Ymwelodd dau Arolygydd ar 14 Chwefror 2020. Yr unig argymhelliad oedd y dylid gosod clo SALTO (electronig) yn lle system fynediad y bysellbad.

iii. *Radon:* Yn sgil y newidiadau i'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio a diweddariadau i Fap Radon dangosol yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (HPA) o'r Deyrnas Unedig, cynhaliwyd adolygiad o'r holl fesuriadau radon blaenorol. O ganlyniad, caiff rhagor o fonitorau radon eu gosod mewn nifer fach o adeiladau lle gallai'r lefelau radon gyrraedd y lefel weithredu ddiwygiedig.

    Yn ogystal, ar gyngor yr Ymgynghorydd Diogelu Ymbelydredd (RPA), cymerwyd darlleniadau pellach ym mhob Neuadd sy'n eiddo i'r Brifysgol, a gofynnwyd am gadarnhad hefyd gan ddarparwyr Neuaddau 3ydd parti ynghylch

hwnnw a bu'n rhedeg am nifer o flynyddoedd.

iii. Diweddarwyd pob Asesiad Risg GMO yn 2019. Cynhelir y Pwyllgor Lleol nesaf ar gyfer Addasiadau Genetig fis Rhagfyr 2020 yn unol â'r amlder o 3 blynedd y cytunwyd arno gyda'r HSE.

iv. Mae cynnig newydd ar gyfer project sy'n defnyddio pysgod o dan adolygiad. Nid oes dim risg i iechyd pobl ac nid yw'r gwaith yn hysbysadwy. Bydd y Swyddfa Gartref yn rhoi manylion y project ar y Gofrestr Gyhoeddus.

v. Er mwyn sicrhau bod yr arferion gwaith yn unol â chanllawiau'r arferion gorau, cynhelir adolygiad o'r holl Asesiadau Risg sy'n gysylltiedig â gwaith ar y norofeirws.

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a [illegible] 3.9g0

cyfnod yn 18/19.

c) Cafwyd adroddiad o'r 'digwyddiad achub bywyd' yng nghanolfan chwaraeon y Brifysgol, Canolfan Brailsford. Ar ol i aelod 'gwympo' bu'n rhaid i staff roi triniaeth dadebru cardiopwlmonaidd (CPR), o geg i geg a bu'n rhaid iddynt ddefnyddio'r diffibriliwr, i 'siocio' calon yr unigolyn, a hynny ddwywaith. Aed â'r person i'r ysbyty lle bu wella.

Dywedir bod cymorth gan rai sydd wrth law, trwy roi CPR a defnyddio diffibriliwr, yn cynyddu'r gyfradd oroesi hyd at oddeutu 32%. Ledled y Brifysgol mae 15 diffibriliwr mewn adeiladau, Unedau Diogelwch ac mae yna un ar y cerbyd Diogelwch symudol hefyd. Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig ydynt. Dyma'r trydydd tro i'r staff Chwaraeon achub bywyd un o'r cwsmeriaid. Yn ddiweddar, achubodd staff Diogelwch y Brifysgol fywydau hefyd, un yn aelod o'r cyhoedd a gwympodd ar safle Ffriddoedd a myfyriwr oedd y mwyaf diweddar.

Nodwyd bod yr Is-Ganghellor wedi canmol y staff dan sylw a dymunai'r Pwyllgor fynegi ei werthfawrogiad hefyd o broffesiynoldeb a dewrder pawb a fu wrthi.

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ac amrywiol rwymedigaethau

iii. Ymhlith yr enghreifftiau eraill o hyfforddiant a ddarperir gan Iechyd a Diogelwch mae Ymchwilio i Larwm Tân, Gwacáu Pobl sy'n Cael Trafferth Symud yn Ddiogel, Sgyrsiau am Yrfaoedd a Chyflogadwyedd, Sesiynau Cynefino i'r Myfyrwyr, Hyfforddiant Aseswyr Defnyddwyr Cyfrifiaduron, Briffiau Iechyd a Diogelwch Cyfleoedd Myfyrwyr.

i. Nodwyd bod Cyfarwyddwr y sganiwr MRI ar hyn o bryd yn adolygu'r holl Weithdrefnau Gweithredu Diogel yn sgil newid y canllawiau.

Dydd Mercher 3 Mehefin 2020, 2pm, Cledwyn 3